OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 594

## Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Fukushima) (Dirymu) (Cymru) 2022

**Dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**

**2.** Mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/6 dyddiedig 5 Ionawr 2016 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima ac sy'n diddymu Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 322/2014(**1**);

(b) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2058 dyddiedig 10 Tachwedd 2017 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima(**2**);

(c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1787 dyddiedig 24 Hydref 2019 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima(**3**).

(**1**) EUR 2016/6, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1504.
(**2**) EUR 2017/2058.
(**3**) EUR 2019/1787.